**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Cyngor y Dyfodol a Thrawsnewid

**Siambr y Cyngor, Canolfan Ddinesig, Abertawe - Canolfan Ddinesig, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 27 Mawrth 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd E T Kirchner (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J A Hale | T J Hennegan | P K Jones |
| M B Lewis | S Pritchard | A H Stevens |
| L J Tyler-Lloyd | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Adrian Osborne | Rheolwr Categori |
| Debbie Smith | Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes. |
| Vicky Thomas | Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: C R Evans a C A Holley

---

## 37 Datgeliadau o Ddiddordebau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw ddiddordebau.

## 38 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2018 fel cofnod cywir.

## 39 Caffael - 'Chwalu Rhwystrau i Gyflenwyr Lleol' - Cymalau Drafft Rheolau Gweithdrefnau Contractau.

Cyflwynodd y Rheolwr Categori Reolau Gweithdrefnau Contractau drafft yn dilyn gweithdai a oedd yn canolbwyntio ar 'chwalu rhwystrau i gyflenwyr lleol'. Amlygodd yn benodol baragraff 15 a oedd yn ymdrin â: -

- Diffiniad ardal leol

- Ystyried manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wrth ddyfarnu contractau
- Cyfyngu cystadleuaeth i'r ardal leol
- Diffiniad o gyflenwr lleol;
- Cymal tynnu yn ôl, lle gall y cyngor ddewis peidio â defnyddio cyflenwr lleol pan fyddai'n rhoi gormod o bwysau ar y cyngor.

Byddai proses diwygio'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau yn cynnwys ymgynghoriad ac yna Weithgor y Cyfansoddiad.

Cafwyd trafodaeth yn dilyn y Rheolau Gweithdrefnau Contractau drafft a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Cyfyngiadau ariannol a phryd byddai'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau yn berthnasol
- Effaith rheoliadau'r UE
- Maint yr ardal leol a ddiffinnir gan 'gyflenwr lleol' ac a ddylid ychwanegu neu eithrio ardaloedd eraill
- Ai manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yw'r term mwyaf addas neu a fyddai term megis manteision cymunedol yn well
- Sefyllfa lle byddai cyflenwr lleol yn cyflawni un o'r manteision, e.e. manteision economaidd ond yn anfanteisiol i un neu ddau o'r manteision eraill, e.e. cymdeithasol ac amgylcheddol.
- Rhestrau a Gymeradwyir/Cytundebau Fframwaith
- Adroddiad caffael i ddangos yr ardaloedd caffaeledig
- Effaith ac ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Yn dilyn y trafodaethau, cyflwynir y newidiadau isod i'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau drafft: -

- A ellid defnyddio term gwahanol yn lle manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol
- Dylai'r rheolau egluro na ddylid cyflawni un fantais, e.e. economaidd, pan fydd yn anfanteisiol i'r manteision eraill.

**Penderfynwyd:** -

1) dosbarthu'r Rheolau Gweithdrefnau Contractau drafft newydd i'r pwyllgor;
2) bydd y Rheolwr Categori yn cyflwyno adroddiad i'r pwyllgor am yr ardaloedd caffaeledig presennol;
3) bydd Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy yn darparu eglurder ar sefyllfa defnyddio rhestrau a gymeradwyir o fewn yr Adran Priffyrdd.
4) darparu Rheolau Gweithdrefnau Contractau drafft er mwyn ymgynghori arnynt.

**40 Ymweliad Safle - Canolfan Gyswllt, Canolfan Ddinesig.**

Ymwelodd y pwyllgor â safle'r Ganolfan Gyswllt.

**41 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.**

Trafododd y pwyllgor y cynllun gwaith arfaethedig.

**Penderfynwyd** y dylid nodi'r cynllun gwaith.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.55 pm

**Cadeirydd**